

**A MEMOIR OF THE  
REV. R. H. EVANS;  
PP. 10-268**

Published @ 2017 Trieste Publishing Pty Ltd

ISBN 9780649045808

A Memoir of the Rev. R. H. Evans; pp. 10-268 by Silas Evans

Except for use in any review, the reproduction or utilisation of this work in whole or in part in any form by any electronic, mechanical or other means, now known or hereafter invented, including xerography, photocopying and recording, or in any information storage or retrieval system, is forbidden without the permission of the publisher, Trieste Publishing Pty Ltd, PO Box 1576 Collingwood, Victoria 3066 Australia.

All rights reserved.

Edited by Trieste Publishing Pty Ltd.  
Cover @ 2017

This book is sold subject to the condition that it shall not, by way of trade or otherwise, be lent, re-sold, hired out, or otherwise circulated without the publisher's prior consent in any form or binding or cover other than that in which it is published and without a similar condition including this condition being imposed on the subsequent purchaser.

[www.triestepublishing.com](http://www.triestepublishing.com)

**SILAS EVANS**

**A MEMOIR OF THE  
REV. R. H. EVANS;  
PP. 10-268**





REV. R. H. EVANS.

0

A MEMOIR  
OF THE  
Rev. R. H. Evans.

Edited by His Son  
SILAS EVANS.



KANSAS City, Mo.  
FRANKLIN HUDSON PUBLISHING CO.  
1908.

o lyfrau digon cyffredin i dori fy newyn. Yr oedd fy holl fryd yn rhedeg ar esboniadau, llyfrau duwinyddol, a hanesyddol; hefyd byddwn dipyn yn hoff o athroniaeth, a llyfrau dadleuol. Yr oedd fy awydd i ddarllen yn angherddol. Pe gwelwn ddwsin o blant yn chwarae buasai yn well genyf fod uwch ben llyfr da na myned atynt.

Daethum i'r wlad hon gyda fy rhieni yn 1838. A daethom ar ein hyniawn i Centreville, Gallia Co., Ohio, lle y buom yn aros am rai blynyddau. Wedi hyn, symudasom i ardal Sardis, yn yr un Sir, a chael fy magu i fyny ar fferm. Yn eglwys fach Sardis y cefais fy nerbyn yn gyflawn aelod. Yma y bum yn cofio am angau y groes wrth fwrdd yr Arglwydd am y tro cyntaf. Yma y bum yn gweddio yn gyhoeddus gyntaf, ac yma y bum yn pregethu y bregeth gyntaf. Yn y lle hwn mewn capel log bychan y cefais y profiadau mwyaf melus.

Bydd y capel bach dinod hwn byth yn gysegredig yn fy ngolwg. Cefais fy nerbyn i gymundeb pan yn 16 mlwydd oed. Yr oedd rhyw ysfa am bregethu ynof er yn blentyn. Byddwn yn trenlio cryn dipyn o fy amser pan yn un bach gyda taid a nain. Yr oedd fy nhadcu yn glochydd yn yr eglwys sefydledig, a byddwn yn myned gydag ef i'r llan, ac yn cofio cryn lawer o'r hyn a ddywedid gan yr offeiriad, a'r wythnos hono gwnawn gasglu plant pentref dinod Pontlanio at eu gilydd i gael pregethu iddynt; a chan y byddwn am gael fy nghydnabod yn offeriad, gwisgwn grys nhadcu i fod yn debyg iddo. Gwnawn bob ymdrech i ddynwared yr offeiriad, ac adrodd darnau gwasgaredig a ddarllenid ganddo yn y llan. A byddwn yn dal y llyfr gweddi cyffredin yn fy llaw, er na allwn ddarllen gair o hono. Un noswaith—nos Sul, os wyf yn cofio—yn Nghapel. Blaenplwyf, yr oedd y pregethwr mewn hwyl anarferol, ac aeth rhai yn

y gynnulleidfa i folianu. Ni welais y fath beth o gwbl yn y llan. O hyny allan yr oeddwn am gael fy adnabod fel pregethwr Methodistiaid. Gwisgwn gadach gwyn am fy ngwddf, a chafodd crys taid lonydd genyf o hyny allan, a chafodd y llyfr gweddi cyffredin ei newid am Feibl a Llyfr Hymnau. Cyn dechreu pregethu byddwn yn gorchymyn i'r plant i dori allan i folianu, pan glywent fi yn dechreu codi fy llais. Dechreuwn y bregeth mewn llais hynod o isel, fel pob pregethwr mawr a welwn, ac yna awn ati i waeddi, oblegid credwn fod nerth y bregeth mewn gwaeddi a churo yr ystyllen a'r llyfr oedd o fy mlaen. Yr oeddwn wedi tori lle yn y clawdd i fod yn bwlpud, ond costiodd y pwlpud hwn i mi yn lled ddrud, oblegid cefais gurfa dost gan nain am dori y clawdd. Ond cedwais yn mlaen gyda y pregethu er pob peth. Byddwn ambell dro yn cymeryd cwn bychain a chathod oedd gyda y plant, i'w bedyddio; ond cas beth genyf oedd bedyddio cath, oblegid byddai bron bob amser yn crafu. Aeth y plant yn raddol i beidio molianu; er i mi waeddi fy ngore, byddent yn hollol ddistaw, ac un tro aethum i lawr atynt mewn tymer go ddrwg a dechreuais eu curo, ac yn fuan cefais ddigon o swm, ond collais fy ngwrandawr.

Sylwn fod pregethwr mawr yn dod at y capel ar gefn ceffyl; ond nid oeddwn yn gweled fod modd i mi gael ceffyl.

Ond yr oedd gan nhadcu asyn bychan yn pori ger llaw, a meddyliais y gwnawn farchogaeth yr asyn. Aethum i baratoi ffrwyn a'i ddysgu i gymeryd ei arwain, ac edrychai y creadur bach, mor ddiniwaidd ag oedd raid; a rhyw ddiwrnod rhoddes hysbysrwydd y byddwn yn pregethu yn ngodre y cae. Yngasglodd cryn lawer o blant ynghyd, a bwriadwn inau wneyd fy ymddangosiad iddynt yn yr arddull mwyaf pregethwrol, ar gefn asyn; ond trodd allan yn hynod aniben, oherwydd mor fuan ag yr aethum



ar ei gefn, cychwynodd ymaith gyda holl nerth ei draed. Collais fy het, a daeth y plant ymlaen i weled yr olygfa. Gwaeddwn a fy holl nerth, Ho; Stopiwch yr asyn. Cydiwch yn ei ben. Ond ni wnai y plant ond rhedeg oddi ar y ffordd a chwerthin. O'r diwedd cefais fy nhabu bendramwnwgl i ganol ffynon o ddwfr, dros fy mhen am clustiau. Ni bum ar gefn asyn byth ar ol hyn. Yr oedd ynof syched mawr am wybodaeth, a gallaf ddyweyd fy mod yn efrydydd naturiol. Byddwn yn cael ysgolion dyddiol fel plant eraill y gymydogaeath, ond nid oedd y rhai hyn yn ddigon i dori fy syched; yr oedd ynof awydd cryf am fyued i ryw athrofa, ond nid oedd gan fy rhieni arian nac ewyllys at hyn. Credent y gwnawn efrydu yn rhy galed, a cholli fy iechyd, ac na wnai hi dalu yn y pen draw; felly cefais fy nghadw i weithio yn galed, a darllen llyfrau yn y nos wrth oleu, *pine torch*, a bu hyn yn anfantais i mi drwy fy oes. O na buaswn wedi cael y manteision y mae bechgyn yn gael yn awr. Cefais ganiatad i bregethu yn mis Tachwedd yn y flwyddyn 1855. Cefais fy magu i fyny ar fferm, ac wedi dod i fy oed bum yn gweithio gwaith saer am wyth mlynedd, y tair blynedd cyntaf mewn *wagon shop*, yna aethum i weithio tai, ac ar ol dechreu pregethu aethum i weithio dodrefn o bob math, a gwneyd eirch i'r rhai fyddai yn marw yn y gymydogaeath; a byddwn yn aml yn cyflawni y gwasanaeth crefyddol, yn Gymraeg neu yn Saesonig yn gystal a gwneyd gwaith *undertaker*.

Cefais fy nerbyn yn aelod Cymanfa yn Cincinnati, Ohio. Hydref, 1856; a chefais fy ordeinio yn Nghymanfa Jackson, O. yr hon a gynhaliwyd yn Moriah, Mai 24-26, 1861. Yr un amser ag y cafodd y Parch. T. C. Davies, Pittsburgh, ei ordeinio. Bum yn pregethu yn deithiol yn Gallia a Jackson am yn agos i bum mlynedd.

Yn ystod yr amser cefais gymaint o barch a derbyniad

ag oedd fy ngallu am cymwysderau fel pregethwr yn hawlio, os nid mwy, a rhyw gymaint o brawf fod Duw yn bendithio fy ngweinidogaeth.

Gwnaf goffau un amgylchiad neu ddau. Pan yn pregethu yn Soar ryw bedair milldir i'r Dwyrain o Oak Hill, ar brydnawn Sabbath cefais dipyn o rwyddineb, a gofynodd Daniel Jones y blaenor a wnawn i bregethu yn yr hwyr; yr amser hono, yn y wlad, ni byddai pregethu ar nos Sul; ond gan fod y tywydd yn ddymunol a'r lleuad yn llawn, meddyliwyd mai da fyddai cael odfa. Addewais y gwnawn bregethu. yr oedd *blast furnace* yn ymyl, a chryn lawer o fechgyn Cymry yn gweithio ynddi a rhai o honynt yn lled annuwiol. Rhoddwyd hysbysrwydd y buaswn yn pregethu yn yr hwyr. Daeth llawer o bobl ieuanc yn nghyd, ac yn eu mysg amryw o fechgyn y *furnace*. Cefais ryw deimlad hynod wrth weddio. Cymerais Preg. xii. 1 yn destyn, a rhyw nerth anarferol i bregethu, ac ar ol bod yn pregethu am ryw haner awr, torodd rhyw ferch ieuanc allan i folianu, ac yn fuan gwnaeth eraill ymuno, a buwyd yn y capel hyd haner nos yn canu a gweddio. Yn nghanol y molianu, y canu, a'r gweddio, gwelwn ddyn ieuanc yn hynod o aflonydd, yn fuan aeth allan trwy y drws, a goiwg lled wyllt arno. Yn mhen mis yr oeddwn yn Soar drachefn, a gwnaethum ymholiad yn nghylch y bachgen. "O," meddent, "mae y bachgen drwg hwnw wedi dod yn aelod o'r eglwys." Pan ofynes pabam yr aeth allan o'r capel, dywedent fod yn rhaid iddo fyned allan neu waeddi; ac ar ol myned allan iddo redeg bob cam am tua dwy filldir o ffordd, a myned i'r gwely; ar ol aros yn y gwely am tuag 20 mynyd, iddo neidio i lawr, gwisgo am dano a myned allan, a myned ar ei liniau i weddio yn ymyl *shock o gorn*, am amser hir, a bod mewn helbul drwy y nos. Y nos Sabbath hwn drachefn, dymunodd y brodyr yn Soar

arnaf bregethu, sef yn mhen mis ar ol y tro cyntaf, a gwnaethum gydsynio gan gymeryd yn destyn, 2 Cor. viii. 9 a theimlwyd yr un dylanwad grymus, ac arhoswyd yn y capel y tro hwn eto hyd haner nos, yn pregethu, canu, gweddio, gorfoleddu, a gofyn pa beth i'w wneyd i fod yn gadwedig; a chlywid sain can a moliant gan rai wrth fyned adref.

Y mae bryniau Gallia a Jackson, lle y treuliais fore fy oes, a lle y cefais gymaint o gysur crefyddol, a chymdeithas felus hen gyfeillion, yn gysegredig yn fy ngolwg.

Byddwn yn cymeryd rhan mewn dadleuon (debates) yn mysg y Saison cyn bod yn 15 oed, a bu hyn yn lles i mi fel rhesymwr a siaradwr, ond feallai iddo fod yn ddrwg mewn cyfeiriadau eraill.

Mai 10, 1860, ymunais mewn priodas gyda Sarah Alban, merch i Thomas ac Ann Alban, ger Centreville, Ohio. Noswaith cyn y briodas, cefais fy nghymeryd yn glaf iawn, ac yr oeddwn yn nghanol y *typhoid fever* pan yn priodi. Nid oeddym yn teimlo i oedi y briodas, am fod dros gant wedi cael eu gwahodd, a llawer o barotadau wedi cael eu gwneyd. Yn yr un wythnos, derbyniais wahoddiad o eglwys Columbus, Ohio, i ddod i lanw y pulpud iddynt am ddau fis. Atebwyd y llythyr gan y meddyg, ac ar ol gwella aethum atynt am ddau fis; ac wedi aros un mis rhoddasant i mi alwad i'w bugeilio; a hyny cyn i mi gael fy ordeinio. Atebais yr alwad yn gadarnhaol, ac yn mis Hydref, 1860, dechreuais ar fy ngwaith yn fy maes newydd, fel olynedd i'r Parch. David Williams fu wedi hyny yn weinidog yn Milwaukee a Chicago. Treuliais wyth mlynedd a haner o amser dedwydd yn eu mysg, a chafodd fy llafur, i fesur, ei fendithio.

Yn 1869 derbyniais alwad o eglwys y T. C. yn Johnstown, Pa. Yn 1874 derbyniais alwad oddi wrth eglwys